Adran 1

# Crynodeb Gweithredol

**Mae mynediad i gynnwys gwasanaeth cyhoeddus wedi ehangu'n ddramatig, ond gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y mae'r rôl flaenaf o hyd.**

1.1 Yn 2003, pan ddaeth y Ddeddf Cyfathrebiadau i rym a phan roesom gychwyn ar ein hadolygiad cyntaf o ddarlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus, roedd y byd yn lle gwahanol iawn. Roedd teledu digidol ar gyfer lleiafrif. Dim ond blwydd oed oedd Freeview. Roedd band eang yn y cartref yn brin. Bellach, Freeview yw'r prif lwyfan teledu, mae 87% o gartrefi'n gwylio gwasanaethau digidol, ac mae gan y rhan fwyaf o gartrefi fynediad i fand eang.

1.2 Yn yr adolygiad cyntaf o DGC, diffiniwyd darlledu gwasanaeth cyhoeddus gennym gan ei ddibenion a'i nodweddion. Dengys ein hymchwil fod cynulleidfaoedd ar draws y sbectrwm demograffig yn parhau i gredu bod y dibenion a'r nodweddion hynny yn hollbwysig. Ystyrir bod gan y teledu – a'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus yn benodol – rôl hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o gyflenwi dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

1.3 Wrth inni gwblhau cam cyntaf ein hail adolygiad statudol, mae defnyddwyr a dinasyddion yn troi hefyd at gyfryngau rhyngweithiol i ddiwallu llawer o'r anghenion a oedd yn draddodiadol yn cael eu diwallu gan ddarlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r rhyngrwyd wedi dod yn ffynhonnell bwysig ar gyfer cael gwybodaeth, ac ar gyfer cynnwys addysgol a hamdden, yn arbennig i'r cynulleidfaoedd iau. Mae technolegau rhyngweithiol yn dechrau chwarae rhan allweddol o ran darparu gwybodaeth i ni a chefnogi cyfranogiad mewn prosesau democrataidd. Mae gan sianeli teledu eraill rôl hefyd, gyda nifer sylweddol o wylwyr bellach yn ystyried sianeli digidol yn unig fel eu prif ffynhonnell ar gyfer hamdden, chwaraeon a gwybodaeth am destunau eraill sydd o ddiddordeb iddynt.

1.4 Mae twf teledu digidol a'r rhyngrwyd wedi chwalu ffiniau daearyddol ac wedi gadael i gynulleidfaoedd weld llawer mwy o gynnwys gorau'r byd. Mae sianeli digidol yn cynnig rhaglenni a brynir gyda gwerthoedd cynhyrchu uchel, yn aml o UDA. Mae'r rhyngrwyd yn creu llwyfan sy'n fodd i dalent newydd, darparwyr cynnwys arbenigol a lleisiau unigol gyrraedd cynulleidfa. Mae gan ddefnyddwyr a dinasyddion heddiw gyfle digidol anferth: mwy o fynediad nag unrhyw genhedlaeth flaenorol i wybodaeth o bob rhan o'r byd ac am y testunau sy'n eu diddori.

1.5 Serch hynny, mae cynulleidfaoedd yn rhoi pwys mawr ar gynnwys sy'n adlewyrchu'r DU yn ei holl agweddau, ac yn teimlo bod hyn yn hanfodol er mwyn cynnal ein hunaniaeth ddiwylliannol a chydlyniad cymdeithasol. Er bod gan gynnwys rhyngwladol rôl i'w chwarae, mae rhaglenni gwreiddiol o'r DU yn hanfodol ar gyfer cyflenwi pedwar diben darlledu gwasanaeth cyhoeddus - gwella ein dealltwriaeth o'r byd drwy newyddion a dadansoddiad, ysgogi gwybodaeth a dysgu, adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol y DU a'n gwneud yn ymwybodol o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau gwahanol. Ni ellir cyflenwi'r un o'r dibenion hyn heb feintiau sylweddol o gynnwys newydd o'r

DU, a fydd yn adlewyrchu gwerthoedd, safbwyntiau a bywydau defnyddwyr a dinasyddion y DU.

1.6 Yn y cyswllt hwn, y sianeli teledu gwasanaeth cyhoeddus – sianeli'r BBC, Channel 3/ITV 1, Channel 4, S4C a Five – sy'n dal â'r rôl flaenaf o ran cyflenwi'r dibenion gwasanaeth cyhoeddus. Y sianeli hyn sy'n gyfrifol am dros 90% o'r buddsoddiad mewn cynnwys newydd ar gyfer y rhwydwaith sy'n cael ei wneud yn y DU ar gyfer y teledu, er gwaethaf y cynnydd ym muddsoddiad rhai sianeli digidol mewn rhaglenni o'r DU yn ystod y blynyddoedd diweddar.

1.7 Y tu hwnt i deledu unionlin, mae ystod eang o ddarparwyr masnachol, dinesig a chymunedol yn cyflenwi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar-lein, gan gynnwys meysydd lle mae economeg teledu unionlin yn heriol, megis y celfyddydau neu newyddion lleol. Mae'n debyg y bydd mwy yn dilyn, wrth i'r rhwystrau i ddarparu cynnwys ar-lein barhau i ddisgyn. Awgryma ymchwil fod llywodraeth ganol ei hun yn gwario oddeutu £70-90 miliwn ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar-lein, ac amcangyfrifir bod llywodraeth leol a llywodraeth ddatganoledig yn gwario £45-55 miliwn arall.

1.8 Ond gall yr ehangu hyn yn y dewis greu heriau newydd yn ogystal â chyfleoedd. Dywed cynulleidfaoedd eu bod yn cael rhai trafferthion dod o hyd i gynnwys sy'n diwallu'u hanghenion, a chael ato, ar deledu digidol ac ar-lein. Nid oes gan bob cynulleidfa fynediad i wasanaethau ar-lein ar hyn o bryd, pa un ai oherwydd dewis neu oherwydd eu bod wedi'u heithrio. Mae'n debyg y bydd sicrhau mynediad rhwydd i gynnwys gwasanaeth cyhoeddus ynghyd â hwylustod dod o hyd i'r cyfryw gynnwys yn dod yn fwyfwy pwysig mewn oes ddigidol.

## Yn gyffredinol, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni'r dibenion cyhoeddus, ond mae bylchau'n ymddangos mewn rhai meysydd

1.9 Yn gyffredinol, mae cynulleidfaoedd yn credu bod y prif sianeli gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni'r dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a buddsoddiad ynddo, wedi bod yn eithaf sefydlog dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae nifer y rhaglenni sy'n deillio o'r DU ac a ddangosir yn yr oriau brig wedi gostwng ychydig ers 2003, ond gwelwyd cynnydd mewn rhai *genres*, yn arbennig rhaglenni ffeithiol. Teimla'r rhan fwyaf o bobl fod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (DGC) yn cyflenwi rhaglenni sydd wedi'u gwneud yn dda ac sydd o ansawdd uchel; mae'r boddhad gyda rhaglenni newyddion a gwybodaeth yn arbennig o uchel. Mae gan y BBC enw arbennig o dda, ac mae cynulleidfaoedd yn ei ystyried yn gonglfaen darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n dangos bod darpariaeth a ariennir gan y pwrs cyhoeddus yn gallu sicrhau cynnwys sy'n cael ei werthfawrogi, hyd yn oed yn amgylchedd presennol y cyfryngau sy'n newid mor gyflym.

1.10 Ond, mewn rhai meysydd mae cynulleidfaoedd yn disgwyl mwy na'r hyn y maent yn ei gael gan y pum prif sianel, yn arbennig rhaglenni o wledydd a rhanbarthau'r DU a chynnwys plant y DU. Mae'r ddarpariaeth yn y meysydd hyn yn gymharol sicr oddi wrth y BBC, ond nid oddi wrth ddarlledwyr masnachol, wrth i werth y sbectrwm analog sy'n sail i lawer o'r rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus masnachol ostwng wrth i fwy a mwy troi at ddigidol. Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl mwy oddi wrth yr holl brif ddarlledwyr o ran rhaglenni newydd ac arloesol.

1.11 Mae'r dewis cynyddol o sianeli ar gyfer cynulleidfaoedd yn anochel yn golygu bod cyflawni cyrhaeddiad ac effaith ar gyfer y sianeli teledu gwasanaeth cyhoeddus yn fwy o her. Mae cyfran y pum prif sianel wedi disgyn 17% rhwng 2003 a 2007, er eu bod yn dal yn gyfrifol am bron i ddwy ran o dair o'r gwylio ar y teledu. Mae'r gostyngiad yn llawer mwy ymysg pobl ifanc 16-24 oed (sydd wedi tyfu i fyny gyda'r rhyngrwyd) ac ymysg pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig (lle mae'r pum prif sianel bellach yn y lleiafrif o ran y nifer sy'n eu gwylio). Dengys ein hymchwil nad yw'r cynulleidfaoedd hyn yn aml yn troi at y sianeli gwasanaeth cyhoeddus fel eu dewis cyntaf ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus; maent yn troi at sianeli digidol a fwyfwy at y rhyngrwyd.

## Mae cyflymder y newid yn debyg o ddwysáu, gyda goblygiadau sylweddol i gyflawni'r dibenion gwasanaeth cyhoeddus

1.12 Wrth i gynulleidfaoedd goleddu cyfryngau digidol, mae cyfleoedd newydd ar gyfer gwerth cyhoeddus yn cael eu creu. Mae'n debyg y bydd y dewis ar gyfer defnyddwyr a dinasyddion yn parhau i ehangu wrth i'r newid i'r digidol gael ei gwblhau ac wrth i'r nifer sy'n derbyn gwasanaethau band eang barhau i godi. Bydd rheolaeth drwy recordwyr fideo personol a mynediad i fideo ar y rhyngrwyd yn dod yn fwy cyffredin ac yn gyflymach, gartref ac wrth deithio. Gallai'r genhedlaeth nesaf o fand eang ganiatáu cynnwys fideo manylder uwch ar alwad. Mae Virgin Media eisoes wedi cyhoeddi gwasanaethau hyd at 50Mb/s mewn rhai ardaloedd a bydd BT yn darparu mynediad hyd at 100Mb/s mewn rhai tai newydd. Mae'n bosibl y bydd ton newydd o offer teledu yn cael ei mabwysiadu'n eang, gan gyfuno mynediad band eang a'r gallu i storio a fydd yn galluogi defnyddwyr i gael mynediad i gynnwys ar y we a gwylio'r teledu ar yr un sgrin yn y stafell fyw.

1.13 Gallai rhyddhau sbectrymau mawr - yn enwedig ailddefnyddio'r sbectrwm teledu digidol - alluogi gwasanaethau teledu symudol newydd, rhagor o sianeli teledu daearol digidol a mwy o fand eang di-wifr. Bydd aildrefnu amlblecsau cyfredol Freeview yn caniatáu gwasanaethau newydd, gan gynnwys sianeli manylder uwch, ar deledu daearol digidol yn ogystal ag ar deledu cebl a lloeren.

1.14 Yn yr amgylchedd hwn sy'n newid mor gyflym, mae'n anodd rhagweld yn union sut y bydd marchnadoedd yn esblygu a pha angen bydd yn parhau am ymyrraeth mewn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Awgryma modelu economaidd a gomisiynwyd gan Ofcom dri phrif gasgliad:

i) Bydd esblygiad parhaus y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cyfryngau yn cyflwyno nifer o gyfleoedd newydd ar gyfer cyflenwi dibenion gwasanaeth cyhoeddus. Ond, mae ystod eang o ganlyniadau tebygol ar gyfer defnydd cynulleidfaoedd yn y dyfodol o wahanol fathau o gyfryngau, a lefel y defnydd newydd o wasanaethau symudol a rhyngweithiol arloesol;

ii) Dan ystod eang o senarios, mae cyrhaeddiad ac effaith y sianeli unionlin gwasanaeth cyhoeddus dynodedig yn debygol o barhau i ostwng;

iii) Gyda chyfryngau'n darnio a chystadleuaeth yn dwysáu, mae lefel a chymysgedd y buddsoddiad mewn cynnwys a wneir yn y DU yn debygol o ostwng, gyda phwysau neilltuol ar raglenni arloesol neu lle cymerir risg.

1.15 Mae’r BBC yn debygol o barhau i wneud cyfraniad sylweddol at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, o wybod am ei faint a sicrwydd ei gyllid nes y bydd y newid i'r digidol wedi dod i ben. Ar gyfer Channel 4 a’r sianeli gwasanaeth cyhoeddus masnachol, mae senarios gwahanol yn awgrymu canlyniadau gwahanol iawn. Wrth ystyried y rhagolygon ar gyfer eu gallu i fodloni eu nodau gwasanaeth cyhoeddus presennol, mae angen inni wahaniaethu rhwng tri chyfnod:

- Y tymor byr: cyn cwblhau’r newid i’r digidol – o nawr hyd at 2011
- Y tymor canolig: o ddiwedd y newid i’r digidol i ddiwedd y trwyddedau darlledu masnachol presennol – o 2011 i 2014 yn fras
- Y tymor hir: ar ôl diwedd y trwyddedau darlledu masnachol presennol – ar ôl 2014.

1.16 Yn y tymor byr, y prif heriau yw’r gostyngiad yn nifer rhaglenni teledu’r DU ar gyfer plant hŷn, a rhaglenni ar gyfer y rhanbarthau a’r gwledydd. Rhoddir mwy o sylw i’r materion hyn isod.

1.17 Yn y tymor canolig, mae angen datrys nifer o faterion ehangach, y mae'n rhaid rhoi sylw gofalus iddynt yn awr. Mae'n bosibl y bydd gwasanaethau gwledydd a rhanbarthau'r DU ar ITV1 (gan gynnwys stv, UTV a Channel) yn dod yn fwyfwy anghynaladwy, hyd yn oed ar lefel ostyngol. Erbyn 2011, mae’n bosibl y bydd un neu fwy o drwyddedigion ITV1 yn wynebu penderfyniad masnachol i roi eu trwyddedau’n ôl. Ond, mae cyfraniad gwasanaeth cyhoeddus Five yn edrych yn sicr gydol y cyfnod hwn, er efallai y bydd pwysau ar ei fuddsoddiad mewn cynnwys a wneir yn y DU yn cynyddu.

1.18 Ar gyfer Channel 4, mae’r adolygiad ariannol a gynhaliwyd gan LEK yn 2006-07 a hefyd y dadansoddiad pellach gennym ni ar gyfer yr adolygiad presennol yn awgrymu y bydd angen rhagor o sicrwydd arno o ran ei fodel ariannu os yw i barhau i wneud cyfraniad cadarn ac effeithiol at ddibenion gwasanaeth cyhoeddus. Yn y tymor canolig, gallai ei gyfraniad at raglenni gwasanaeth cyhoeddus wynebu cryn bwysau: ym meysydd materion cyfoes, newyddion rhyngwladol, rhaglenni ffeithiol arbenigol (megis y celfyddydau, gwyddoniaeth, crefydd a rhaglenni dogfen cymdeithasol) rhaglenni drama gwreiddiol o’r DU a chomedi sgriptiedig, a rhaglenni arloesol lle cymerir risg yn fwy cyffredinol. Efallai y bydd ei gronfeydd wrth gefn yn ddigon i gynnal ei gyfraniad gwasanaeth cyhoeddus yn y tymor byr ond mae angen eglurder arno ynghylch ei sefyllfa ariannu yn y tymor hwy.

1.19 Yn y tymor hir, mae ystod ehangach o opsiynau ar gael adeg adnewyddu’r trwyddedau darlledu masnachol presennol. Mae’n deg gofyn a ddylai ITV1 a Five gael unrhyw rôl sefydliadol barhaus penodol yn cyflenwi darlledu gwasanaeth cyhoeddus; yn yr un modd Teletext a GMTV. Er mwyn cynnal rôl arbennig Channel 4, byddai angen cylch gwaith newydd arno, model ariannu cynaliadwy a chymesur a threfniadau atebolrwydd.

1.20 Awgryma'r dadansoddiad hwn y bydd pob DGC a ariennir yn fasnachol angen cael eglurder ynghylch eu rolau hirdymor erbyn 2011 fan bellaf, pan fydd costau ymrwymiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus rhai ohonynt yn fwy o bosibl na’r buddion a gânt, ac ar gyfer pob un pan fydd eu trwyddedau darlledu presennol yn dod i ben o bosib ymhen tair blynedd. Bydd hyn yn eu

galluogi i gynllunio'n hyderus ar gyfer y dyfodol naill ai fel sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus neu fel busnesau cwbl fasnachol.

## Mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi cystadleuaeth i'r BBC wrth ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, y bydd angen ffynonellau ariannu newydd ar eu cyfer mewn oes ddigidol

1.21 Mae ein gweledigaeth ar gyfer cyflenwi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yn cael ei gyrru gan anghenion parhaus y gynulleidfa, wrth i fynediad at deledu digidol ddod yn gyffredin ac wrth i'r nifer sy'n troi at lwyfannau newydd ddal i dyfu. Mae ar gyfer system:

- sy'n cyflenwi lefelau uchel o gynnwys newydd o'r DU sy'n bodloni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus;
- sy'n darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy'n wreiddiol, heriol, arloesol a deniadol a wastad o safon uchel;
- sydd ar gael ar ffurf, ac ar amrediad o lwyfannau sy'n sicrhau'r cyrhaeddiad a'r effaith fwyaf;
- sy'n sicrhau cystadleuaeth i'r BBC ar gyfer pob diben cyhoeddus ar raddfa ddigonol i gyflawni cyrhaeddiad ac effaith;
- sy'n manteisio ar fuddion unigryw gwahanol lwyfannau cyflenwi; ac
- sy'n darparu cynnwys amrywiol sy'n bodloni anghenion holl gymunedau'r DU.

1.22 Awgryma ein dadansoddiad y bydd y model cyfredol yn ei chael hi'n anodd cyflwyno'r weledigaeth hon: darparu cynnwys sy'n adlewyrchu gwerthoedd, safbwyntiau a hunaniaethau'r DU, a sicrhau lefelau amrywiaeth ac arloesedd o fewn y cymysgedd cyffredinol; sicrhau y cyflenwir *genres* penodol; cyflenwi cyrhaeddiad ac effaith cynnwys gwasanaeth cyhoeddus; a chynnal y cymhellion er mwyn i ddarlledwyr masnachol aros yn rhan o'r ecoleg darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

1.23 Ar yr un pryd, mae'r cyfleoedd digidol newydd yn gyfleoedd cyffrous ar gyfer cyflenwi dibenion gwasanaeth cyhoeddus. I fanteisio ar y cyfleoedd hyn, bydd angen i ddarparwyr cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio ystod eang o lwyfannau er mwyn bodloni anghenion gwahanol gynulleidfaoedd mewn ffyrdd a fydd wedi'u targedu'n well. Mae tri chwestiwn penodol yn codi:

- All gwerth rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus gael ei wella drwy ddarparu cynnwys cyfredol a chynnwys archif yn ôl y galw ac mewn gwahanol ffyrdd drwy amrywiol gyfryngau?
- Pa fathau newydd o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus sydd bellach yn bosibl - ffurfiau sy'n manteisio i'r eithaf ar botensial cyfranogol a chydweithredol y cyfryngau rhyngweithiol?
- Sut y gallwn fanteisio ar yr ystod eang o ddarparwyr - y sector gwirfoddol, preifat, cyhoeddus ac unigolion -sydd eisoes yn cynhyrchu amrywiaeth heb ei ail o gynnwys rhyngweithiol sydd, mewn sawl ffordd, yn cyflenwi dibenion a nodweddion cyhoeddus yn barod?

1.24 Felly mae'r ystod o anghenion y mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ceisio rhoi sylw iddynt yn ehangu. Ond mae'r adnoddau sydd ar gael i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i'r BBC i ddiwallu'r anghenion hyn yn lleihau. Dengys ein dadansoddiad fod cyfanswm y cyllid ymhlyg ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol wedi gostwng chwarter – oddeutu £130 miliwn mewn termau real - ers pasio'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn 2003. Erbyn 2012 rhagwelir y bydd wedi gostwng bron i ddwy ran o dair ers 2003 – cyfanswm o dros £300 miliwn yn llifo allan o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol. Erbyn yr amser hwn, os na fydd dim yn newid, bydd y BBC yn derbyn dros 90% o'r holl gyllid ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus, i fyny o ychydig dros 80% yn 2003.

1.25 Cred cynulleidfaoedd fod cystadleuaeth i'r BBC o ran darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus – y cyfeirir ato yn aml fel lluosogrwydd – yn hollbwysig. Awgryma ein dadansoddiad fod lluosogrwydd yn dal i gyflwyno manteision i gynulleidfaoedd mewn tri maes. Yn gyntaf, mae'n sicrhau mynediad i amrywiol leisiau a safbwyntiau. Yn ail, mae'n gwella cyrhaeddiad ac effaith cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, oherwydd bod sefydliadau gwahanol yn cyrraedd cynulleidfaoedd neilltuol yn fwy effeithiol nag eraill. Ac yn olaf, mae'n gweithredu fel ysgogiad cystadleuol, sy'n helpu i sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn berthnasol ac yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd. Yn hyn o beth, mae lluosogrwydd yn hanfodol i barhad llwyddiant y BBC yn ogystal â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ariennir yn fasnachol.

1.26 Nid yw'r un gwerth yn cael ei roi ar ddarpariaeth luosog ymhob *genre*. Mae mwyafrif yn ei ystyried yn bwysig yn y rhan fwyaf o feysydd, gyda newyddion a materion cyfoes yn brif flaenoriaethau. Awgryma cynulleidfaoedd ei fod yn llai pwysig mewn rhaglenni crefyddol ac ar gyfer ysgolion. Awgryma ein hymchwil diweddaraf fod pobl yn dal yn fodlon talu mwy am ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus cyfredol i sicrhau bod y ddarpariaeth luosog yn cael ei chynnal. Byddwn yn cynnal rhagor o ymchwil yn ystod gam 2 yr adolygiad hwn i ddadansoddi agweddau cynulleidfaoedd at y mater hollbwysig hwn yn fwy manwl.

1.27 Bydd y farchnad yn darparu ychydig yn fwy o luosogrwydd i'r BBC yn y dyfodol. Mae ystod eang o sefydliadau masnachol, sector gwirfoddol a rhai a ariennir yn gyhoeddus eisoes yn gwneud cyfraniad cynyddol at ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar draws y llwyfannau. Mae buddsoddiad gan sianeli digidol masnachol mewn cynnwys a wneir yn y DU wedi cynyddu rywfaint mewn blynyddoedd diweddar. Yn ogystal, mewn rhai *genres* – drama, comedi, rhai rhaglenni ffeithiol - mae rhaglenni tramor wedi cyfrannu'n sylweddol at y gystadleuaeth am ansawdd.

1.28 Ond mae buddsoddiad gan sianeli digidol mewn cynnwys a wneir yn y DU yn dal yn gyfyngedig iawn o'i gymharu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac mae'n canolbwyntio ar chwaraeon, adloniant ac, i raddau llai, newyddion. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn gyfrifol am 90% o'r buddsoddiad yn y cynnwys a wneir yn y DU. Nid yw hyn yn debyg o newid yn sylweddol, ac yn benodol nid yw'n debygol o lenwi'r bylchau mewn *genres* nad ydynt yn gynaliadwy ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus a ariennir yn fasnachol.

1.29 Mae cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar-lein yn dod yn fwyfwy pwysig. Ond ar hyn o bryd nid yw'n ateb amgen i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus am

ddau reswm. Yn gyntaf, mae ei effaith a'i gyrhaeddiad wedi'i gyfyngu gan sawl ffactor: ar gyfartaledd, mae pobl yn dal i dreulio mwy o amser yn gwylio’r teledu nag ar-lein, mae amser pobl ar-lein yn cael ei dreulio’n gwneud nifer o bethau, ac er bod y cyfryngau’n bwysig yn hyn o beth dim ond un elfen ydyw, a chymaint yw maint ac amrywiaeth y cynnwys a geir ar-lein nes bod pobl yn llai tebygol o ddod o hyd i gynnwys gwasanaeth cyhoeddus yno nag ar y teledu. Yn ail, mae teledu ymhob cartref bron, ond ar hyn o bryd dim ond ychydig dros hanner sydd â band eang, gyda phobl hŷn yn benodol yn llai tebygol o fod ar-lein.

1.30 Yng ngoleuni’r dadansoddiad hwn a’n dyletswydd statudol i argymell ffyrdd o gynnal a chryfhau ansawdd darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ein barn gychwynnol yw y dylid dod o hyd i gyllid newydd i olynu’r cymhorthdal ymhlyg sy’n lleihau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol ac i gynnal lluosogrwydd ar gyfer cyflenwi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus.

1.31 Yn y pendraw y llywodraeth a’r Senedd fydd yn penderfynu ar lefel a dosbarthiad cyffredinol y cyllid ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Bydd y penderfyniadau hyn yn dibynnu ar i ba raddau yr ystyrir bod cyfraniad darparwyr eraill yn ychwanegiad gwerthfawr a buddiol i wasanaethau'r BBC.

1.32 Os yw lluosogrwydd i barhau i chwarae rôl ganolog, bydd angen ffynonellau cyllid newydd ar gyfer darparwyr y tu allan i’r BBC. Mae ystod eang o ffynonellau cyllido posibl, y rhan fwyaf ohonynt yn ffynonellau i’w hystyried gan y llywodraeth a'r Senedd yn hytrach nag Ofcom:

i) **Cyllid cyhoeddus uniongyrchol:** mae’r ffynonellau cyllido posibl yn cynnwys trethiant uniongyrchol; neu enillion wedi’u neilltuo o arwerthiannau sbectrwm neu daliadau sbectrwm;

ii) **Ffi'r drwydded:** mae’r opsiynau’n cynnwys cadw’r cyllid dros ben o ffi’r drwydded sydd ar hyn o bryd wedi’i neilltuo ar gyfer y Cynllun Cymorth wrth Newid i’r Digidol a chostau marchnad Digital UK, gan ymestyn arian craidd ffi'r drwydded i ddarparwyr eraill, neu ddefnyddio asedau’r BBC i gefnogi darparwyr eraill; a

iii) **Asedau rheoliadol:** gallai'r rhain gynnwys mynediad i sbectrwm am brisiau sy'n is na phris y farchnad, rheolau ‘munudedd’ hysbysebu diwygiedig, neu statws darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer sianeli ychwanegol;

iv) **Cyllid gan y diwydiant:** gellid ystyried ystod eang o ardollau diwydiant, yn debyg i’r cynigion sy’n cael eu hystyried yn Ffrainc ar hyn o bryd.

1.33 Mae’r holl bosibiliadau hyn yn codi materion pwysig y mae angen rhoi ystyriaeth ofalus a manwl iddynt. Er mwyn llywio’r ystyriaeth honno, byddwn yn cynnal asesiad manylach o’r opsiynau hyn yn ystod gam 2 yr adolygiad hwn. Byddai angen i unrhyw drefniadau ariannu newydd gydymffurfio ag egwyddorion cymesuredd, tryloywder ac atebolrwydd a sicrhau bod yr effaith ar y gystadleuaeth yn y farchnad wedi’i chyfyngu i’r hyn sy’n angenrheidiol er mwyn cyflenwi dibenion gwasanaeth cyhoeddus.

## Nid yw’r model presennol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ddigon da i ymateb i ofynion newydd cynulleidfaoedd

1.34 Er mwyn addasu i gyfleoedd a risgiau'r dyfodol i sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu, rhaid cael **hyblygrwydd**: i ymateb i'r newidiadau yn y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn cael mynediad at gynnwys a'r math o gynnwys y maent am ei gael; i gyfeirio'r cyllid mewn ffyrdd sy'n mynd i'r afael â'r anghenion hynny sy'n newid; ac i fanteisio ar botensial arbennig llwyfannau newydd i gyflenwi dibenion cyhoeddus.

1.35 Mae gan y BBC yr hyblygrwydd hwn oherwydd ei fframwaith statudol. Yn ei Siarter gyfredol, diffinnir ei gylch gwaith yn nhermau dibenion eang yn hytrach na gofynion cynnwys penodol. Mae ganddo'r rhyddid i ddyrannu adnoddau'n wahanol rhwng gwasanaethau wrth i anghenion cynulleidfaoedd newid. Mae ganddo'r gallu hefyd i lansio gwasanaethau newydd i gyflawni'i gylch gwaith, yn amodol ar gymeradwyaeth Ymddiriedolaeth y BBC.

1.36 Nid oes gan y model presennol ar gyfer cyflenwi darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i'r BBC yr un hyblygrwydd. Mae'n gyfyngedig i set benodol o sianeli teledu unionlin dynodedig. Mae gofynion cynnwys manwl y sianeli hynny wedi'u gosod allan mewn deddfwriaeth, ond mewn rhai *genres* - y celfyddydau, crefydd, rhaglenni plant, drama - gall darlledwyr unigol benderfynu yn y pendraw faint y byddant yn ei ddarparu. Wrth i'r model cyllido ymhlyg ar gyfer rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus masnachol ddod yn fwyfwy anghynaladwy, mae'n debygol iawn y bydd y ddarpariaeth yn gostwng eto. Ond does dim peirianwaith ar gyfer ariannu'r gwaith o gyflenwi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus gan ddarparwyr eraill, hyd yn oed os oes ganddynt gymhellion cryfach neu fwy o allu i wneud hynny.

1.37 O'r herwydd, nid yw'r model presennol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i'r BBC yn gallu manteisio ar y cyfleoedd newydd sy'n dod i'r amlwg ar lwyfannau rhyngweithiol, nac ychwaith yn gallu mynd i'r afael â'r risgiau i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus unionlin sydd ar ddod.

1.38 Mae rhai elfennau o'r model presennol yn dal yn ddeniadol ac yn berthnasol i'r dyfodol:

- Sefydliadau sydd wedi'u hariannu'n dda y mae eu cymhellion yn gydnaws â dibenion cyhoeddus ac yn cefnogi arloesedd a chymryd risg, yn arbennig ar gyfer dibenion nad ydynt mor hawdd eu pennu'n union, megis cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol a'n gwneud ni'n ymwybodol o safbwyntiau gwahanol;

- Cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang a'r mynediad at y rhan fwyaf ohono'n hawdd gan roi cyfle i'r mwyafrif helaeth o ddinasyddion ei fwynhau, gyda rhai ymyriadau ar lwyfannau nad ydynt ar gael mor eang er mwyn cynyddu'r niferoedd a chyrraedd cynulleidfaoedd penodol; a

- Darpariaeth luosog ar draws yr holl ddibenion cyhoeddus yn y prif feysydd rhaglen, er mwyn cynnig dewis, ysgogi cystadleuaeth am ansawdd a gwella cyrhaeddiad ac effaith.

1.39 O fewn y fframwaith cyffredinol hwn, gellid llunio nifer mawr o fodelau amgen. Dylai unrhyw fodel newydd fodloni nifer o brofion i sicrhau y gall gyflwyno'r weledigaeth ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn effeithiol ac yn effeithlon.

- Ydy darparwyr yn cael cymhellion i gyflenwi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy’n sicrhau cyrhaeddiad ac effaith?

- Ydy cystadleuaeth rhwng darparwyr yn cyflenwi manteision lluosogrwydd?

- Ydy'r model yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau yn y gynulleidfa a’r farchnad?

- Oes gan ddarparwyr gylchoedd gwaith clir, annibyniaeth, trefniadau atebolrwydd tryloyw a chymhellion sy’n gydnaws â’r dibenion cyhoeddus?

- Ydy’r model yn ategu darpariaeth y farchnad, yn hytrach nag i’r gwrthwyneb?

- Ydy’r model yn coleddu’r llwyfannau, y mathau o gynnwys a’r gwasanaethau sy’n diwallu anghenion cynulleidfaoedd orau?

- Ydy modelau cyllid y darparwyr yn gynaliadwy?

1.40 Ar sail y rhagdybiaeth y bydd BBC annibynnol sy’n derbyn y cyllid priodol yn dal i fod yn gonglfaen darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU, mae dau gwestiwn yn amlygu'u hunain:

i) A ddylai rhai neu’r cyfan o’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol a ariennir yn fasnachol gadw rolau arbennig wrth gyflenwi dibenion cyhoeddus yn y dyfodol?

ii) A ddylai rhagor o gyllid fod ar gael ar gyfer y ddarpariaeth y tu allan i’r BBC?

1.41 Ar sail y ddau gwestiwn hyn, rydym wedi datblygu pedwar model enghreifftiol posibl, y byddwn yn eu cloriannu'n fanylach yn ystod gam 2 ein hadolygiad. Ymhob model, byddem yn disgwyl i’r farchnad ddarparu rhywfaint o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus:

- **Model 1 - Esblygu**: y darparwyr gwasanaeth cyhoeddus (DGC) masnachol presennol yn cadw rôl gwasanaeth cyhoeddus dynodedig. Naill ai bydd eu cyfrifoldebau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu lleihau yn unol â gostyngiad yng ngwerth y sbectrwm sydd wedi’i roi iddynt am ddim, neu fod cefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu i gynnal neu ehangu’r cyfrifoldebau hynny sy’n aros yn flaenoriaethau cyhoeddus uchel ond nad oes modd eu cefnogi bellach drwy werth y sbectrwm presennol sydd wedi’i roi iddynt am ddim;

- **Model 2 - BBC yn unig**: nid yw'r DGC masnachol yn cadw rolau dynodedig arbennig ac ni ddarperir arian cyhoeddus ychwanegol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i’r BBC. Y BBC fydd yr unig ymyriad ar draws y DU mewn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ac efallai y bydd angen iddo ysgwyddo rhagor o rolau i fodloni'r anghenion nad yw’r farchnad yn gallu'u cyflenwi. Darperir lluosogrwydd cyfyngedig dim ond i’r graddau sy’n bosibl drwy gynnwys a ddarperir gan ddarlledwyr sy’n gwbl fasnachol;

- **Model 3 – BBC/C4 ynghyd â chyllido cystadleuol cyfyngedig:** Channel 4 yn cadw rôl gwasanaeth cyhoeddus dynodedig er mwyn darparu lluosogrwydd gyda'r BBC ond bydd DGC masnachol eraill yn colli'u dyletswyddau a'u buddion gwasanaeth cyhoeddus. Bydd cylch gwaith Channel 4 yn cael ei ymestyn ar draws llwyfannau ac i feysydd rhaglen newydd, a'i gefnogi gan gyllid newydd. Gallai unrhyw ddibenion cyhoeddus sy'n weddill nas cyflenwir gan y BBC a Channel 4 - o bosibl rhaglenni nas darperir gan y BBC ar gyfer rhanbarthau a gwledydd y DU - gael eu cyflenwi drwy gytundebau cyllido hirdymor ond trosglwyddadwy gyda darparwyr eraill, a ddyfernir yn gystadleuol drwy asiantaeth gyllido; a

- **Model 4: Cyllido cystadleuol eang:** ni fydd y DGC masnachol yn cadw rolau sefydliadol arbennig. Yn hytrach, darperir arian ychwanegol gan y llywodraeth ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus y tu hwnt i'r BBC. Byddai contractau hirdymor ond trosglwyddadwy ar gyfer cyflenwi dibenion gwasanaeth cyhoeddus penodol yn cael eu dyfarnu'n gystadleuol drwy asiantaeth gyllido. Byddai'r contractau hynny'n agored i gynigion oddi wrth amrediad eang o sefydliadau, gan gynnwys y DGC presennol. Byddai gan y BBC rôl greiddiol mewn meysydd lle nad yw'r farchnad yn debygol o gyflenwi ond lle byddai proses gystadleuol yn anodd ei nodi.

1.42 Bydd cyflenwi model newydd angen deddfwriaeth newydd ac mae'n benderfyniad i'w wneud gan y llywodraeth a'r Senedd. Ond yn sgil ein dadansoddiad ni o gyfleoedd a risgiau newydd i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ein hargymhelliad ni yw y dylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd, yn ddelfrydol, fod yn ei lle erbyn 2011, yr adeg pan fydd rhai o'r trwyddedau cyfredol yn dod i ben a phan fydd Channel 4 yn wynebu pwysau cynyddol o ran cyflawni'i gylch gwaith. Mae hyn hefyd gryn amser cyn dyddiad dod i ben cychwynnol y trwyddedau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol presennol ddiwedd 2014.

## Bydd angen dulliau gweithredu newydd i ddiwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau ac ardaloedd lleol y DU

1.43 Yn yr hirdymor, mae'r materion sy'n wynebu'r ddarpariaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol yn debyg iawn i'r rhai ar gyfer gweddill darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac mae'r dewisiadau hirdymor a gynrychiolir gan y pedwar model a ddisgrifir yn yr adran flaenorol yr un fath yma ag yn y *genres* eraill. Ond yn y tymor byr i'r canolig, mae nifer o faterion anodd y mae angen rhoi sylw iddynt. Ac mae'r dirwedd ddarlledu a'r anghenion gwleidyddol yn wahanol yng ngwledydd y DU, ac felly mae pob un angen ateb teilwredig.

1.44 Mae'r radio a phapurau newydd yn dal i gyfrannu'n sylweddol at y ddarpariaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae cyfleoedd newydd ar gyfer cyflenwi, megis gwasanaethau ar-lein lleol a theledu digidol lleol yn ymddangos. Ond nid ydynt yn gyffredin ac ar hyn o bryd nid yw'r gynulleidfa teledu rhanbarthol graidd yn eu hystyried yn wasanaethau yn lle'r rhai presennol.

1.45 Yn Lloegr, mae'n amlwg bod gwylwyr yn rhoi'r gwerth mwyaf o ran rhaglenni rhanbarthol ar newyddion a gwybodaeth ranbarthol. Ond, mae cost cynhyrchu sawl rhifyn gwahanol ar gyfer un slot amser yn golygu mai newyddion rhanbarthol yw cost gwasanaeth cyhoeddus uchaf trwyddedau ITV1. Cred ITV plc hefyd fod cost cyfle uchel ynghlwm sef y gwahaniaeth yn y

proffidioldeb rhwng rhaglenni newyddion rhanbarthol ac un rhaglen rwydwaith yn yr un slot. Y llynedd argymhellodd wrth Ofcom y dylid cael strwythur newydd o 2009 ymlaen ar gyfer newyddion rhanbarthol yn Lloegr a Gororau'r Alban a fyddai'n cyfuno rhai rhanbarthau er mwyn lleihau niferoedd y rhanbarthau o ddau. Roedd hefyd am gael gwared yn raddol â'r rhaglenni newyddion a gynhyrchir mewn 'isranbarthau' fel y'u gelwir.

1.46 Ar ôl ymgynghoriadau ag Ofcom, grwpiau gwylwyr, ASau a rhanddeiliaid eraill, mae ITV plc wedi cyflwyno strwythur gwahanol a fyddai, er yn dal i leihau nifer y rhanbarthau i bob pwrpas, yn darparu i'r rhan fwyaf ohonynt 'raglenni disodli' lleol neu isranbarthol ar oriau brig - crynodebau newyddion wedi'u targedu at ardaloedd penodol sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglenni newyddion rhanbarthol.

1.47 Rydym wedi lansio rhaglen ymchwil a chloriannu helaeth i asesu'r cynigion hyn, a chroesawn eich barn gychwynnol cyn ymgynghoriad manwl yn yr hydref. Gallem ymateb mewn sawl ffordd, er enghraifft drwy:

- wrthod unrhyw newid yn y trwyddedau cyfredol
- caniatáu i ITV plc leihau ei gostau drwy addasu'i gynllun ailstrwythuro;
- ystyried opsiynau eraill ar gyfer cynaliadwyedd newyddion rhanbarthol.

1.48 Yn y gwledydd datganoledig, mae gwahaniaethau pwysig yn anghenion cynulleidfaoedd. Yng Nghymru, y mater allweddol yw cynnal lluosogrwydd democrataidd, ac ystyried natur ddatganoledig gynyddol llywodraeth Cymru. Dwyseir y mater hwn gan absenoldeb cymharol cystadleuaeth ar lefel y wasg genedlaethol, o'i gymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon. O'r herwydd, mae safle gwasanaeth Channel 4/ITV1 mewn rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn hanfodol o ran darparu gwasanaeth ar wahân i'r BBC. Mae darlledu yn y Gymraeg yn arbennig o bwysig o wybod am nifer mawr y siaradwyr Cymraeg er bod cyllid S4C yn gwneud i hyn ymddangos yn gymharol sicr.

1.49 Yng Ngogledd Iwerddon, mae UTV yn ymddangos yn gadarn yn ariannol hyd at y newid i'r digidol a chefnogir lluosogrwydd ymhellach oherwydd sefyllfa iach y radio a'r wasg, ac, yn unigryw yn y DU, y ffaith bod cyfryngau o Weriniaeth Iwerddon ar gael yn eang, sydd i raddau mwy neu lai yn rhoi sylw i ddigwyddiadau yng Ngogledd Iwerddon. Y cwestiynau i'w hateb o hyd yw cael dosbarthiad eang a chadarn yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer y gwasanaeth Gaeleg TG4 a hefyd ar gyfer RTÉ, a chyllid ar gyfer cynyrchiadau yn yr iaith frodorol.

1.50 Yn yr Alban, mae costau'r dyletswyddau gwasanaeth cyhoeddus ar drwyddedigion ITV yn debygol o fod yn fwy na buddion statws darlledwr gwasanaeth cyhoeddus o 2010. Hyd yn oed petai'r gofynion trwydded eraill yn cael eu dileu, byddai cost newyddion ei hun yn fwy na buddion statws darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Ac eto, o wybod am natur ddatganoledig y llywodraeth yn yr Alban, mae lluosogrwydd newyddion a materion cyfoes ar y teledu yn hanfodol. Felly mae'n bosibl y bydd angen dod i hyd i atebion newydd cyn i'r trwyddedau ddod i ben yn 2014. Nid yw ffiniau trwydded ITV, yn wahanol i'r BBC, yn cyfateb i'r ffin genedlaethol, sy'n codi'r mater o ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer ardal Gororau'r Alban. Mae gwasanaethau yn yr iaith Gaeleg yn cynyddu, a'u cefnogi gan ymyrraeth uniongyrchol oddi wrth lywodraeth yr Alban.

1.51 Mater pwysig ymhob un o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr yw nifer y comisiynau a enillir ac a gynhyrchir yn lleol ar gyfer rhaglenni'r rhwydwaith. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyfrifol am gyrraedd y cwotâu a osodir gan Ofcom (neu yn achos y BBC, rhwng Ofcom ac Ymddiriedolaeth y BBC) ar gyfer cynyrchiadau y tu allan i Lundain. Ond nid yw cwotâu ar eu pennau'u hunain yn sicrhau bod cynhyrchu'n cael ei wasgaru rhwng gwahanol rannau'r DU; nid ydynt ychwaith yn sicrhau bod gwahanol rannau o'r DU yn cael eu portreadu ar y sgrin. Mae'r olaf yn amcan pwysig ar gyfer gwylwyr y tu allan i Lundain, ac yng ngwledydd y DU yn arbennig; ar ITV1, er enghraifft, mae'r cyfryw bortreadu'n dibynnu'n eithaf trwm ar gyfresi sebon a dramâu eraill, a llai ar fathau eraill o raglenni.

1.52 Mae dulliau gweithredu posibl ar gyfer sicrhau bod y nodau hyn yn cael eu cyflawni'n cynnwys:

- ffocws ar dargedau cynhyrchu y tu-allan-i-Loegr yn ogystal ag y tu-allan-i-Lundain ar gyfer y BBC a Channel 4, sefydliadau mewn perchnogaeth gyhoeddus y mae eu dibenion cyhoeddus yn gydnaws ag amcanion fel hyn – o ran cynhyrchu a hefyd o ran portreadu. Yn achos BBC, dyma fater i'w ystyried gan Ymddiriedolaeth y BBC yn ogystal ag Ofcom;

- cwotâu diwygiedig ar gyfer cynyrchiadau ITV1 y tu allan i Lundain, er y byddai'n rhaid pwyso a mesur hyn fel blaenoriaeth yn erbyn anghenion i ddiogelu newyddion y gwledydd a'r rhanbarthau;

- yn y ddau achos y cyfan wedi'i gyfuno ag ymdrechion cadarnhaol darlledwyr, asiantaethau datblygu ac Asiantaethau Sgrin lleol i ddatblygu'r sector cynhyrchu lleol a chenedlaethol.

1.53 Yn y pen draw, mae cyflwyno portread eang digonol o nodweddion rhanbarthol a chenedlaethol ar draws yr amserlen yn debygol o fod yn ddibynnol ar fodolaeth busnesau cynhyrchu cynaliadwy yn y gwledydd, a chomisiynu datganoledig. Byddwn yn ystyried a oes angen i Ofcom neu gyrff cyhoeddus eraill weithredu ymhellach ar hyn yng ngham 2 yr adolygiad.

## Gallai'r BBC, Channel 4 ac S4C chwarae rôl yn gwella'r ddarpariaeth i blant

1.54 Does dim tystiolaeth y bydd y farchnad yn llenwi'r bylchau yn narpariaeth y cynnwys i blant a fydd yn cael eu gadael gan y gostyngiad yn y buddsoddiad gan y DGC masnachol. Does dim un sianel ddigidol fasnachol wedi sefydlu achos busnes dros fuddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni ansawdd uchel o'r DU ar gyfer plant hŷn, ac awgryma ein modelu nad oes achos o'r fath yn debygol o ymddangos. Rydym yn amcangyfrif bod y cyllid blynyddol ar gyfer rhaglenni plant y DU ymysg y pum prif DGC wedi gostwng oddeutu £51 miliwn ers 2003.

1.55 Mae pob un o'r pedwar model hirdymor yn darparu fframwaith hirdymor amgen ar gyfer cyflenwi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i blant. Gallai'r BBC ysgwyddo rôl ehangach. Mae Channel 4 wedi awgrymu y gallai ysgwyddo rôl newydd, yn arbennig yn darparu cynnwys i blant hŷn. Efallai y bydd Five neu ITV yn chwarae rôl hefyd. Neu, gallai unrhyw un neu'r cyfan o'r darparwyr hyn ddarparu gwasanaeth plant craidd gyda darpariaeth ychwanegol yn cael ei sicrhau drwy drefniadau cyllido cystadleuol.

1.56 Ond, mae nifer o faterion yn dal heb eu datrys y mae angen rhoi sylw'n ddi-oed iddynt o ran darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i blant.

1.57 Yn ein papur trafodaeth ar raglenni plant, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2007, nodasom sawl cynnig a wnaed gan randdeiliaid i fynd i'r afael â'r materion hyn yn y tymor byr. Materion i'w hystyried gan y llywodraeth yw'r rhan fwyaf o'r rhain. Cymhellion treth yw un opsiwn posibl, er nad yw'r dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd y rhain yn glir.

1.58 Mae ITV 1 a Five yn dal i wneud cyfraniad at raglenni plant. Ond o wybod am y cyfyngiadau ar bwerau Ofcom i fynnu lefel benodol o gynnyrch ar gyfer plant gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, credwn y gellid ystyried tri dull gweithredu ychwanegol. Y rhain yw:

- Datblygu rôl y BBC ar gyfer cyflenwi cynnwys i blant: sefydlu mwy o sicrwydd dros fuddsoddiad yn y dyfodol oddi wrth y BBC, ymestyn y cynnyrch ar gyfer plant hŷn gan y BBC sydd ar gael ar ôl 7pm, ac ymestyn y ddarpariaeth i bobl ifanc yn eu harddegau. Materion i'w hystyried gan Ymddiriedolaeth y BBC yw'r rhain, gan ystyried yr amrywiol alwadau sy'n cystadlu ar adnoddau'r BBC;

- Ymestyn cylch gwaith Channel 4 i gynnwys plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau. Mae Channel 4 eisoes wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer buddsoddi'n sylweddol mewn cynnwys ar gyfer plant hŷn, a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol hyd yn oed os dim ond yn rhannol i'r diffyg tebygol yn y maes hwn. Mae wedi dangos ei fod yn barod i barhau â'r ymrwymiad hwn a'i ymestyn yn y dyfodol ond gan ddweud y byddai hyn angen cefnogaeth ariannol ychwanegol barhaus;

- Archwilio'r rôl y gallai S4C ei chwarae yn darparu cynnwys i blant y DU i gyd, er enghraifft, drwy gryfhau'r cymhellion i gynhyrchwyr annibynnol ailwampio'r cynnwys ar gyfer cynulleidfa'r DU (a rhyngwladol o bosibl).

## Bydd cam 2 yr adolygiad hwn yn cynnwys mwy o waith ar fodelau posibl ar gyfer yr hirdymor a'r materion tymor byr a nodir yn yr adroddiad hwn

1.59 Yr ydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ar y dadansoddiad a osodir allan yn yr adroddiad hwn, ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol cynnwys gwasanaeth cyhoeddus a'r opsiynau cychwynnol ar gyfer ei chyflawni. Rydym yn croesawu eich barn ar y materion hyn.

1.60 Ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a'r dadansoddiad pellach i'w gynnal yn ystod gam 2 yr adolygiad hwn, bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad pellach yn yr hydref yn cynnwys:

- Gwerthusiad manwl o'r pedwar model hirdymor posibl ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus;

- Cynigion penodol ar y materion tymor byr a thymor canolig a nodir yn yr adroddiad hwn, yn arbennig yng nghyswllt gwasanaethau i'r gwledydd a'r rhanbarthau, cyllid ar gyfer Channel 4, rolau DGC masnachol yn y dyfodol, opsiynau ar gyfer rhaglenni plant, hyrwyddo arloesedd mewn cynnwys a'r angen yn y dyfodol o bosibl am ymyrraeth yn y cyfryngau rhyngweithiol.

## CWESTIYNAU YMGYNGHORI

### Adran 3. Pa mor dda y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflenwi dibenion cyhoeddus?

i) Ydych chi'n cytuno ag asesiad Ofcom fod gan y teledu rôl hanfodol o hyd yn cyflenwi dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus?

ii) Ydych chi'n cytuno bod cynnyrch a wneir yn y DU yn sylfaenol i gyflwyno dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus?

### Adran 4. Amgylchedd y farchnad sy'n newid

i) Ydych chi'n cytuno â chasgliadau Ofcom am y ffordd y mae sianeli digidol eraill a'r cyfryngau rhyngweithiol yn cyfrannu at y dibenion cyhoeddus?

### Adran 5. Y rhagolygon ar gyfer cyflenwi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol

i) Ydych chi'n cytuno ag asesiad Ofcom o oblygiadau senarios economaidd gwahanol ar gyfer marchnad deledu'r DU ar y rhagolygon ar gyfer cyflwyno'r dibenion cyhoeddus yn y dyfodol?

ii) Ydych chi'n cytuno â dadansoddiad Ofcom o gostau a buddion statws DGC?

### Adran 6. Diwallu anghenion cynulleidfaoedd mewn oes ddigidol

i) Ydych chi'n cytuno â gweledigaeth Ofcom ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus?

ii) Pa mor bwysig yw lluosogrwydd a chystadleuaeth i ansawdd wrth gyflenwi dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac ym mha feysydd?

iii) Wrth sicrhau'r cyrhaeddiad a'r effaith gorau posibl ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, pa rolau all gwasanaethau a llwyfannau gwahanol eu chwarae?

iv) Ydych chi'n cytuno na fydd y model presennol ar gyfer cyflenwi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ddigonol i ddiwallu anghenion a fydd yn newid yn y dyfodol?

### Adran 7. Modelau'r dyfodol ar gyfer ariannu a darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus

i) Beth yw eich barn am yr opsiynau lefel-uchel ar gyfer ariannu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol?

ii) Ai'r profion effeithiolrwydd a argymhellir ar gyfer y modelau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yw'r rhai iawn?

iii) O'r pedwar model posibl ar gyfer cyflenwi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn yr hirdymor, pa un, os o gwbl, yw'r mwyaf priodol yn eich

barn chi, a pham? A oes unrhyw fodelau eraill, neu gyfuniad o fodelau a allai fod yn fwy priodol, a pham?

## Adran 8. Opsiynau ar gyfer DGC masnachol

i) Yn eich barn chi, beth yw'r rôl gwasanaeth cyhoeddus priodol ar gyfer Channel 4 yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir? Beth yw eich barn am y weledigaeth a argymhellir gan Channel 4?

ii) Pa un o'r opsiynau a nodir ar gyfer y DGC masnachol ydych chi o'i blaid?

## Adran 9. Senarios ar gyfer gwledydd, rhanbarthau ac ardaloedd lleol y DU

i) I ba raddau yr ydych yn cytuno ag asesiad Ofcom o'r materion hirdymor tebygol yn y dyfodol fel ag y maent yn berthnasol i wledydd, rhanbarthau ac ardaloedd lleol y DU?

ii) Yn eich barn chi, pa fodel(au) fydd y mwyaf priodol ymhob un o wledydd y DU ac yn rhanbarthau Lloegr yn yr hirdymor, a pham?

iii) Beth yw eich barn am y materion tymor byr/canolig y cyfeiriwyd atynt, gan gynnwys y cwotâu cynhyrchu ar gyfer y rhwydwaith y tu-allan-i-Lundain?

iv) Beth yw eich barn gychwynnol am yr opsiynau rhagarweiniol a nodwyd yng nghyswllt cynnig ITV plc ar gyfer newyddion rhanbarthol? (Sylwch y bydd Ofcom yn cyflwyno opsiynau cadarn ar y materion hyn ac yn ymgynghori hefyd ar gynnig ITV plc ynghylch newyddion rhanbarthol, yng ngham 2 yr Adolygiad hwn.)

## Adran 10. Y rhagolygon ar gyfer rhaglenni plant

i) Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r opsiynau tymor byr posibl sydd ar gael yng nghyswllt rhaglenni plant; a oes unrhyw opsiynau eraill ar gael?

## Adran 11. Yr amserlen ar gyfer rhoi  model newydd ar waith

i) Ydych chi'n cytuno y bydd angen i ddeddfwriaeth newydd fod ar waith erbyn 2011 er mwyn sicrhau bod y dibenion cyhoeddus yn dal i gael eu cyflenwi yn y tymor canolig a'r tymor hir?

**Adran 9**

# Senarios ar gyfer gwledydd, rhanbarthau ac ardaloedd lleol y DU

## Y senarios ar gyfer Cymru

9.1 Mae nodweddion allweddol y cyd-destun darlledu ar gyfer Cymru yn cynnwys:

- parhad y broses ddatganoli;
- BBC cryf, o ran ei ddarpariaeth ar gyfer Cymru (llai felly o ran ei ddarpariaeth o Gymru ar gyfer y rhwydwaith, er y gwelwyd rhai datblygiadau yn ddiweddar yn y maes hwn sydd i'w croesawu);
- darpariaeth gref a chadarn yn yr iaith Gymraeg drwy gyfrwng S4C (ond gyda lluosogrwydd cyfyngedig wedi'i gynnwys yng nghyswllt newyddion, o ran bod BBC Cymru'n darparu gwasanaeth newyddion S4C);
- darpariaeth fasnachol i Gymru - ar ffurf ITV Wales - yn wynebu rhai economïau heriol;
- gwasg frodorol wannach nag yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon:
- rhai datblygiadau cyfyngedig mewn cynnwys lleol ar-lein ar gyfer Cymru;
- radio BBC, ond dim gwasanaeth radio masnachol, ar lefel Cymru, a thwf radio masnachol lleol a rhanbarthol;
- datblygiad cryf radio cymunedol, wedi'i gefnogi gan gronfa radio cymunedol arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru; a
- lefelau isel o gynhyrchu/portreadu ar-sgrin lleol ar lefel rhwydwaith, er bod rhai arwyddion cadarnhaol yn ddiweddar o'r BBC.

9.2 Bydd ariannu rhaglenni ITV ar gyfer Cymru - o'r dyfodol agos ymlaen - yn gynaliadwy dim ond fel rhan o'r grŵp ITV plc ehangach (gweler Adran 5, uchod).

9.3 Ar gyfer y tymor hwy, nodwyd gennym yn Adran 7 uchod bedwar model dangosol ar gyfer cyflenwi cynnwys DGC gan y BBC ac mewn cystadleuaeth â'r BBC. Ein hamcan, wrth ystyried y dulliau amgen hyn, yw lluosogrwydd cynaliadwy'r cynnwys ar draws bob llwyfan, mewn cystadleuaeth â'r BBC.

9.4 Yn Model 2 'BBC yn unig', gallai S4C gael rôl o hyd fel sefydliad a ariennir ag arian cyhoeddus yn cyflwyno cynnyrch yn y Gymraeg. Mae'n debyg y byddai lluosogrwydd cynnwys yn yr iaith Saesneg yn gyfyngedig.

9.5 Yng Nghymru gallai Model 1 'esblygu' gynnwys cefnogi'r prif ddarlledwr masnachol presennol – ITV Wales - er mwyn cynnal lluosogrwydd newyddion a materion cyfoes ar y teledu a - lle bo modd - rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yng Nghymru ar lefel gwlad.

9.6 Dengys ein dadansoddiad, o wybod bod ITV Wales yn rhan o ITV plc, ei bod yn debygol y gallai adolygu a blaenoriaethu'r dyletswyddau DGC a osodir ar ITV1 yn gyffredinol fod yn ddigon i sicrhau gwasanaeth ITV Wales hyfyw (yn canolbwyntio ar newyddion, ond gyda rhai rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion) yn y tymor byr i'r tymor canolig. Ond, yn y tymor hir mae'n bosibl y byddai'n rhaid cael ffynonellau cyllid newydd (e.e. oddi wrth lywodraeth y Cynulliad neu lywodraeth y DU). Er bod llywodraeth y DU eisoes yn cyfrannu at ariannu S4C, byddai arian oddi wrth lywodraeth Cymru neu lywodraeth y DU yn codi'r materion cysylltiedig o annibyniaeth olygyddol. Hefyd, byddai'n rhai ystyried rheolau cymorth gwladol.

9.7 Er y gallai'r model hwn gefnogi darpariaeth newyddion a heb fod yn newyddion ar gyfer ITV Wales ar lefel gwlad, ni fyddai'n arwain at gynnydd mewn cynhyrchu yng Nghymru, a phortreadu Cymru, ar lefel rhwydwaith y DU; mae pryderon tebyg yn bodoli yn y tair gwlad ddatganoledig Fel y nodwyd uchod, bydd Ofcom yn ystyried y mater o gynhyrchu ar gyfer y rhwydwaith y tu allan i Lundain yng ngham 2 yr adolygiad hwn.

9.8 Yn ychwanegol, mae'n debyg y byddai Model 2 'BBC yn unig' a Model 1 'esblygu' ill dau yn arwain at ledaeniad ansicr o ran gwasanaethau cynnwys lleol yng Nghymru.

9.9 Efallai y bydd datblygiad pellach Model 1 'esblygu' ar ôl 2014 - pan ddaw cyfnod y trwyddedau presennol i ben - yn cynnwys mathau newydd o drwyddedu o fewn ITV1, megis un drwydded ar gyfer pob gwlad (ar hyn o bryd mae ITV Wales yn rhan o drwydded ddeuol ITV Wales and West) er na fyddai hyn ynddo'i hun yn debygol o ddatrys y materion hyfywedd economaidd.

9.10 Dan rai o'r modelau, mae'n bosibl y gellir llunio strwythurau trwydded newydd a fyddai'n gadael i'r trwyddedai presennol neu ddarparwyr newydd (ar lefel gwlad a hefyd efallai ar lefel ranbarthol/leol yng Nghymru) dendro am gontractau i ddarparu mathau amrywiol o raglenni o fewn amserlen ITV1 ac i ddarparu cynnwys ar-lein yn benodol.

9.11 Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y gallai fod rhywfaint o botensial am le gwag ar y rhan o'r amlblecs DTT, a ddefnyddir hefyd gan S4C, y darlledwr yn y Gymraeg, sydd i'w ddefnyddio ar gyfer cynnwys yn y Saesneg yng Nghymru, rhaglenni heb fod yn rhai newyddion yn benodol na fyddant o bosibl yn cael eu darparu mewn man arall ar sail fasnachol. Byddai hyn ar ben gwasanaethau Cymraeg S4C, nid ar eu traul, a gallai fod yn ganlyniad o fewn Model 3 'BBC/C4 ynghyd â chyllido cystadleuol cyfyngedig' a amlinellir yn Adran 7.

9.12 Dan y model hwn, gellid hysbysebu contractau a fyddai'n caniatáu i ddechreuwyr cenedlaethol newydd ac efallai ddechreuwyr lleol yn benodol i amlygu'u hunain - yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallai Modelau 3 a 4 hefyd (BBC/C4 ynghyd â chyllido cystadleuol eang) gyflwyno gweithgarwch wedi'i ledaenu'n ddaearyddol heb gymaint o ffocws ar ddinasoedd mawr. Mae'n bosibl hefyd y gellid ariannu S4C o fewn y senario olaf.